# TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD Y PENDERFYNIAD** | 28 Mawrth 2023 |
| **DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD** | 29 Mawrth 2023 |
| **DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd. | 5 Ebrill 2023 |

**ENW A THEITL YR AELOD CABINET**

Y Cynghorydd Craig ab Iago, Aelod Cabinet Tai

**PWNC** Prydlesu Swyddfa yn M-Sparc ar ran Partneriaeth Sgiliau Gogledd Cymru

**PENDERFYNIAD –**Cymryd prydles ar gyfer eiddo a adnabyddir swyddfa ar y llawr cyntaf yn adeilad 1A Parc Gwyddoniaeth MSParc ar ar ran Partneriaeth Sgiliau Gogledd Cymru, a hynny ar delerau ac amodau i'w pennu gan Bennaeth yr Adran Tai ac Eiddo.

**RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD –**

Gweler yr Adroddiad Swyddog atodedig

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**


Dim

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD-**

Ymgynghorwyd â –
Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd

Adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad atodedig

**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD – ADRODDIAD SWYDDOG**

| | |
|---|---|
| Enw a theitl yr Aelod/au Cabinet : | Y Cynghorydd Craig ab Iago |
| Enw a theitl Awdur yr Adroddiad : | Lowri Cadwaladr Roberts<br>Rheolwr Stadau |
| Dyddiad y Cymerwyd y Penderfyniad: | 28.03.2023 |
| Llofnod yr Aelod/au Cabinet : |  |

## Pwnc : Prydlesu Swyddfa yn M-Sparc ar ran Partneriaeth Sgiliau Gogledd Cymru

### Argymhelliad ar gyfer y Penderfyniad :

Cymryd prydles ar gyfer eiddo a adnabyddir swyddfa ar y llawr cyntaf yn adeilad 1A Parc Gwyddoniaeth MSParc ar ar ran Partneriaeth Sgiliau Gogledd Cymru, a hynny ar delerau ac amodau i'w pennu gan Bennaeth yr Adran Tai ac Eiddo.

### Rheswm dros yr angen am y Penderfyniad :

Galluogi Partneriaeth Sgiliau Gogledd Cymru i leoli Staff yn M-Sparc, Gaerwen.

### Rhesymeg a chyfiawnhad dros gyrraedd y Penderfyniad :

Mae Cyngor Gwynedd yn gweinyddu ac yn cyd-lynu Partneriaeth Sgiliau Gogledd Cymru ar ran chwe awdurdod lleol. Mae'r Bartneriaeth yn gyfrifol am greu Cynlluniau Cyflogaeth a Sgiliau Rhanbarthol er mwyn dadansoddi a dylanwadu ar ddarpariaeth sgiliau'n seiliedig ar angen economaidd rhanbarthol, i gefnogi twf a phrosiectau seilwaith allweddol ym mhob rhanbarth.

Mae Partneriaeth Sgiliau Gogledd Cymru yn cael ei gydnabod gan Lywodraeth Cymru fel un o bedair partneriaeth sgiliau rhanbarthol yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig grant blynyddol er mwyn cwrdd â chostau' craidd y Bartneriaeth Sgiliau, a hyny i gynnwys ariannu gofod swyddfa.

Yn ei gyfarfod ar 24 o Hydref 2022, penderfynodd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol gefnogi'r bwriad o leoli staff i MSparc, Gaerwen. Bydd y brydles hefyd yn caniatáu i staff

eraill Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru ddefnyddio'r swyddfa yn ol y galw, gan ddarparu cyfleon i gyd-weithio yn agos gyda M-Sparc a'r cyflogwyr eraill a leolir yn yr adeilad.

Yn yr achos yma bydd Cyngor Gwynedd yn dal y brydles ar ran Partneriaeth Sgiliau Gogledd Cymru, ond fe ariennir yr holl gostau sy'n gysylltiedig â'r brydles yn gyfan gwbl o gyllideb y Bartneriaeth.

Nid oes bwriad i dalu mwy na rhent y farchnad am y swyddfa.

## Cofnod o unrhyw fuddiant a ddatganwyd gan unrhyw Aelod Cabinet yr ymgynghorwyd â hwy ac unrhyw oddefeb gan Bwyllgor Safonau :

Dim

## Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn gwneud y Penderfyniad :

Dim

Prif Swyddog Cyllid – "Dim gwrthwynebiad o safbwynt priodoldeb ariannol."

Swyddog Monitro – "Mae'r Gwasanaeth Cyfreithiol wedi cynghori ar y mater yma. Dim sylwadau i'w hychwanegu o ran priodoldeb."

Aelod/au Lleol – Nid yw'n fater lleol